AROLWG TEITHIO CENEDLAETHOL CYMRU

WALES NATIONAL TRAVEL SURVEY

Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru: Canlyniadau bysiau, 2025/26

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu detholiad o ganlyniadau o'r deuddeg mis cyntaf o gasglu data ar gyfer Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru 2025/26 (yr Arolwg Teithio). Mae'r canlyniadau hyn yn seiliedig ar dros 6,100 o ymatebion a 18,000 o deithiau a gofnodwyd o bob cwr o Gymru. Ystadegau swyddogol sydd wrthi'n cael eu datblygu yw'r data.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar deithio ar fysiau. Mae'n dwyn ynghyd wybodaeth am sut mae pobl yn teithio, a'u barn a'u hagweddau tuag at wasanaethau bysiau. Nid yw'r Arolwg Teithio yn gwahaniaethu yn ôl darparwr gwasanaeth, ac felly gall ffigurau ar gyfer defnydd neu fodlonrwydd fod yn wahanol i ffigurau sy'n benodol i gwmnïau.

Mae'r Arolwg Teithio yn arolwg newydd, a dyma'r arolwg teithio cenedlaethol cyntaf yng Nghymru ers 2012. Dylid bod yn ofalus wrth ystyried y canlyniadau ochr yn ochr â ffynonellau data eraill. Efallai fod gwahaniaethau'n codi oherwydd bod diffiniadau gwahanol wedi'u defnyddio ar gyfer arolwg, gan fod methodolegau gwahanol wedi'u defnyddio neu gan fod gwahaniaethau gwirioneddol mewn ymddygiad teithio.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn seiliedig ar flwyddyn gyntaf yr arolwg, gyda data'n cael ei gasglu o sypiau rhwng mis Mawrth 2025 a mis Chwefror 2026. Mae gwybodaeth am ansawdd ar gael yn yr Adroddiad Ansawdd.

Mae nifer o dermau sy'n ymwneud yn benodol â thrafnidiaeth wedi cael eu defnyddio yn yr adroddiad hwn. Rydym wedi llunio dogfen ddiffiniadau i helpu pawb i ddeall.

Y prif ganfyddiadau

- Rydym yn amcangyfrif bod 3.7% o deithiau y pen y flwyddyn wedi'u gwneud ar fws.
- Roedd 85.3% o deithiau ar fws wedi cael eu gwneud gan yr 17.7% o ymatebwyr a oedd yn teithio ar fws o leiaf unwaith yr wythnos.
- Cerdded ac olwyno oedd y dull mwyaf cyffredin a ddefnyddiwyd i deithio i safleoedd bysiau (93.1%) ac o safleoedd bysiau (91.3%).
- Roedd 84.8% o ddefnyddwyr bysiau naill ai'n fodlon iawn neu'n weddol fodlon ar eu taith gyffredinol.
- "Gwell gwybodaeth am lwybrau, safleoedd bysiau ac amseroedd" oedd y ffactor mwyaf poblogaidd a fyddai'n annog defnyddwyr bysiau i deithio ar fws yn amlach (40.7%).
- Cost fesul cilomedr wedi'i bwysoli a deithiwyd ar fws oedd £0.20.

Nodyn ar y data

Amcangyfrifon yw'r canlyniadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn ac yn y tablau ategol, sy'n seiliedig ar ymddygiad a barn ymatebwyr. Mae'r data wedi cael ei bwysoli i gynrychioli poblogaeth oedolion Cymru.

Mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrifon hyn. Mae'r lefel hon o ansicrwydd yn fwy ar gyfer grwpiau llai a dulliau teithio llai cyffredin. Er enghraifft, mae amcangyfrifon ar gyfer De-ddwyrain Cymru yn seiliedig ar 2,825 o ymatebwyr, o'i gymharu â 665 o Ganolbarth Cymru, sy'n golygu bod mwy o ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrifon ar gyfer Canolbarth Cymru. Fodd bynnag, mae'r arolwg yn dal i ddarparu amcangyfrifon rhesymol ar gyfer y grwpiau llai hyn o'r boblogaeth.

Mae rhagor o wybodaeth am gywirdeb a manylder yr amcangyfrifon hyn ar gael yn adran Cywirdeb yr Adroddiad Ansawdd.

Ar gyfer rhai cwestiynau, gallai ymatebwyr ddewis hyd at dri opsiwn, felly efallai na fydd y cyfansymiau'n dod i 100%.

Amlder teithiau ar fws

Roedd y cwestiynau am ba mor aml yr oedd pobl yn teithio yn mesur pa mor aml yr oedd unigolyn wedi teithio ar fws yn ystod y deuddeg mis diwethaf. Mae hyn yn wahanol i gyfran y dull teithio, sef cyfran y teithiau y pen y flwyddyn a wneir ar fws.

- Roedd 17.7% o'r ymatebwyr yn defnyddio bysiau'n aml, gan deithio ar fws o leiaf unwaith yr wythnos (4.4% y rhan fwyaf o ddiwrnodau, 8.0% sawl gwaith yr wythnos a 5.3% unwaith yr wythnos).
- Roedd 37.2% o'r ymatebwyr yn teithio ar fws yn anaml. Dywedodd 10.4% o'r ymatebwyr eu bod yn defnyddio bysiau unwaith neu ddwywaith y mis, 10.4% unwaith pob ychydig fisoedd, ac 16.4% unwaith neu ddwywaith yn ystod y flwyddyn.
- Dywedodd 44.4% o'r ymatebwyr nad oeddent yn defnyddio bysiau o gwbl.

Bws: amlder teithio

Ffigur 1: Pa mor aml yr oedd ymatebwyr wedi defnyddio bws dros y deuddeg mis diwethaf, 2025/26.



Disgrifiad o Ffigur 1: Siart bar llorweddol yn dangos canran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn defnyddio bws yn aml, yn anaml neu ddim o gwbl. Roedd 17.7% o ymatebwyr yn defnyddio bws yn aml, gyda 37.2% yn defnyddio bws yn anaml.

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, amlder teithio

Statws anabledd

- Dywedodd mwy o ymatebwyr anabl (20.3%) eu bod yn defnyddio'r bws o leiaf unwaith yr wythnos o'i gymharu ag ymatebwyr nad ydynt yn anabl (16.0%).

Rhanbarthau

- De-ddwyrain Cymru oedd â'r gyfran uchaf o ymatebwyr a oedd yn defnyddio'r bws o leiaf unwaith yr wythnos (19.4%), yna De-orllewin Cymru (17.3%) a Gogledd Cymru (16.5%). Roedd y Canolbarth yn llawer is, sef 9.7%.
- Roedd cyfran y defnyddwyr anaml yn gymharol debyg ar draws y rhanbarthau. Fodd bynnag, Gogledd Cymru oedd â'r gyfran uchaf o ymatebwyr a ddywedodd nad oeddent wedi defnyddio'r bws o gwbl yn ystod y deuddeg mis diwethaf (54.2%), a De-ddwyrain Cymru oedd â'r gyfran isaf (42.5%).

Grŵp oedran

- Roedd 37.0% o'r ymatebwyr 16-24 oed yn defnyddio bws o leiaf unwaith yr wythnos. Mae'r ffigur hwn yn llawer uwch na'r holl grwpiau oedran eraill, gyda'r ail uchaf yn 23.5% ar gyfer pobl 75-84 oed. Roedd ymatebwyr mewn grwpiau oedran eraill yn teithio ar fws yn llai aml.
- Roedd 9.7% o'r ymatebwyr 45-54 oed yn defnyddio bws o leiaf unwaith yr wythnos. Dyma'r gyfran isaf ymysg pob grŵp oedran.

Cwintelau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2025 yn graddio amddifadedd cymharol ardaloedd bach yng Nghymru. Ar gyfer y dadansoddiad hwn, mae safleoedd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru wedi'u grwpio'n gwintelau (pum grŵp o'r un maint). Mae Cwintel 1 (C1) yn cynnwys 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae Cwintel 5 (C5) yn cynnwys 20% o ardaloedd lleiaf difreintiedig Cymru. Mae gwybodaeth ynghylch sut mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn diffinio amddifadedd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

- Yn gyffredinol, gostyngodd cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn defnyddio bws o leiaf unwaith yr wythnos wrth i amddifadedd ostwng o 25.0% yn C1 (mwyaf difreintiedig) i 13.2% yn C4 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Cyfran o'r prif ddull teithio

Mae'r prif ddull teithio yn cyfeirio at y dull a ddefnyddiwyd ar gyfer y pellter hiraf o fewn taith. Y gyfran o'r prif ddull teithio yw canran y teithiau y pen y flwyddyn sy'n cael eu cwblhau drwy brif ddull penodol.

Yn 2025/26, rydym yn amcangyfrif bod ymatebwyr wedi gwneud 23.3 taith y pen y flwyddyn ar fws.

- Yn gyffredinol, roedd 3.7% o deithiau y pen y flwyddyn yn cael eu gwneud ar fws fel y prif ddull teithio. Roedd hyn yn cyfrif am 66.0% o'r holl deithiau ar drafnidiaeth gyhoeddus (35.3 taith y pen y flwyddyn) yn 2025/26.
- Roedd 4.2% o deithiau gan breswylwyr mewn ardaloedd trefol yn cael eu gwneud ar fws, o'i gymharu â 2.7% o deithiau gan unigolion mewn ardaloedd gwledig.

Bysiau: Cyfran o'r prif ddull teithio yn ôl rhanbarth

Ffigur 2: Cyfran y teithiau y pen y flwyddyn ar fws, 2025/26.



Disgrifiad o Ffigur 2: Siart bar llorweddol yn dangos cyfran y teithiau fesul person y flwyddyn ar fws. Mae 4.0% o deithiau'n cael eu gwneud ar fws yn Ne-orllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (3.7%).

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, cyfran o'r prif ddull teithio

Cyfran o'r prif ddull teithio yn ôl amlder teithio

- Roedd y rhan fwyaf o deithiau ar fws yn cael eu gwneud gan nifer cymharol fach o ymatebwyr. Nodwyd nad oedd 17.7% o ymatebwyr yn defnyddio bysiau'n aml. Roedd yr ymatebwyr hyn yn cyfrif am 85.3% o'r holl deithiau ar fws a gofnodwyd ac yn gwneud 19.9% o'u teithiau ar fws.
- Nodwyd nad oedd 37.2% o ymatebwyr yn defnyddio bysiau'n aml. Roedd yr ymatebwyr hyn yn gwneud 1.1% o'u teithiau ar fws (7.1 taith y pen y flwyddyn) ac yn cyfrif am 11.4% o'r holl deithiau ar fws.
- Dywedodd 44.4% arall o'r ymatebwyr nad oeddent yn teithio ar fws o gwbl a'u bod yn gwneud llai na dwy daith y pen y flwyddyn ar fws.
- Er bod cyfran uwch o deithiau wedi cael eu cwblhau ar fws (3.7%) na thrên (1.9%), rydym yn amcangyfrif bod mwy o bobl wedi gwneud o leiaf un daith ar drên yn ystod y flwyddyn (68.3%) o'i gymharu â bws (54.9%).

Cyfran o'r prif ddull teithio yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

- Roedd cyfran y teithiau ar fws yn uwch ymysg ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Roedd preswylwyr C1 wedi gwneud 5.5% o deithiau ar fws, ac roedd y rhai yn C2 wedi gwneud 5.0% o deithiau ar fws.
- Roedd ymatebwyr a oedd yn byw yn yr 20% lleiaf difreintiedig o Gymru (C5) yn gwneud 3.0% o'u teithiau (21.3 taith y pen y flwyddyn) ar fws.

Mynegai o wyth gwahanol fath o amddifadedd yw Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Cyfeirir at y rhain fel meysydd amddifadedd. Ochr yn ochr â chwintelau cyffredinol Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, rydym hefyd wedi dadansoddi ymddygiad teithio yn ôl y maes incwm a'r maes mynediad at wasanaethau.

Mae'r maes incwm (amddifadedd incwm o hyn ymlaen) yn mesur cyfran y bobl sy'n wynebu amddifadedd sy'n gysylltiedig ag incwm isel.

Mae'r maes mynediad at wasanaethau (amddifadedd mynediad at wasanaethau o hyn ymlaen) yn cofnodi anallu aelwyd i gael gafael ar wasanaethau sy'n angenrheidiol i fyw o ddydd i ddydd. Mae'n cynnwys amddifadedd materol (fel methu cael bwyd) ac agweddau cymdeithasol ar amddifadedd (fel methu mynychu gweithgareddau ar ôl ysgol).

Mae rhagor o wybodaeth am y meysydd hyn ar gael yn adroddiad technegol Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2025.

- Rydym yn amcangyfrif bod cyfran y teithiau ar fws wedi gostwng wrth i amddifadedd incwm cymharol ostwng. Roedd ymatebwyr a oedd yn byw yn C1 y cwintelau amddifadedd incwm yn gwneud 5.6% o'u teithiau ar fws. Roedd hyn yn gostwng wrth i amddifadedd incwm cymharol leihau, gan fod y rheini yn yr 20% o Gymru sy'n lleiaf difreintiedig o ran incwm (C5) yn gwneud 3.1% o deithiau ar fws.
- Roedd cyfran y rhai sy'n defnyddio bysiau yn ôl amddifadedd mynediad at wasanaethau yn rhoi darlun cymysg. Y rheini a oedd yn byw yn yr 20% mwyaf difreintiedig o Gymru yn ôl mynediad at wasanaethau oedd yn gwneud y gyfran isaf o deithiau ar fws (2.7%). Fodd bynnag, y rheini sy'n byw yn yr ail gwintel mwyaf difreintiedig (C2) oedd yn cyfrif am y gyfran fwyaf, gyda 4.3% o'u teithiau ar fws.

Cyfran o'r prif ddull teithio yn ôl rhyw yr ymatebydd

- Roedd menywod a ymatebodd wedi gwneud 64.9% o'r holl deithiau bws a gofnodwyd. Rydym yn amcangyfrif bod menywod a ymatebodd wedi gwneud 4.8% o'u teithiau ar fws, o'i gymharu â 2.5% o deithiau gan ddynion a ymatebodd.

Cyfran o'r prif ddull teithio yn ôl grŵp oedran

- Y grwpiau oedran iau a hŷn a wnaeth y gyfran fwyaf o'u teithiau ar fws. Rydym yn amcangyfrif bod 8.7% o deithiau gan unigolion 16-24 oed wedi cael eu gwneud ar fws yn

2025/26, yr uchaf yn ôl unrhyw gategori oedran. Roedd y rheini sy'n 75 oed a hŷn yn gwneud 6.7% o deithiau ar fws, ac yna 4.6% o unigolion 65-74 oed.

- Roedd ymatebwyr 25-44 oed a 45-64 oed yn gwneud cyfran gymharol is o'u teithiau ar fws (2.0% a 2.4% yn y drefn honno).

Cyfran o'r prif ddull teithio yn ôl statws anabledd

- Rydym yn amcangyfrif bod 5.2% o deithiau ymatebwyr anabl wedi cael eu gwneud ar fws, o'i gymharu â 3.1% o deithiau gan ymatebwyr nad ydynt yn anabl.

Cyfran o'r prif ddull teithio gan ymatebwyr â thrwydded yrru

- Roedd y gwahaniaeth mwyaf yng nghyfran y dull teithio ar fysiau rhwng y rheini sydd â thrwydded yrru lawn a'r rheini heb drwydded yrru lawn. Amcangyfrifwyd bod ymatebwyr heb drwydded wedi gwneud 14.0% o deithiau ar fws o'i gymharu ag 1.7% o deithiau gan y rheini sydd â thrwydded.
- Er mwyn cymharu, y brif gyfran o'r dull teithio ar drenau oedd 4.6% o deithiau ymysg y rheini nad oes ganddynt drwydded yrru lawn o'i gymharu ag 1.4% o deithiau gan y rheini sydd â thrwydded yrru lawn.

Teithiau aml-ddull

Pan fydd dau ddull teithio neu fwy yn cael eu defnyddio ar gyfer un daith, gelwir hyn yn daith aml-ddull. Y prif ddull teithio yw'r dull a ddefnyddir ar gyfer y pellter hiraf yn y daith. Diffinnir dulliau eraill a ddefnyddir yn y daith fel dulliau ychwanegol. Mae rhagor o fanylion am deithiau aml-ddull ar gael yn ein diffiniadau.

Yn 2025/26, rydym yn amcangyfrif bod 10.5% o'r holl deithiau yn rhai aml-ddull (65.4 taith y pen y flwyddyn).

- Ymysg teithiau aml-ddull, defnyddiodd 34.6% fws fel y prif ddull teithio. Roedd 10.9% arall o deithiau aml-ddull yn defnyddio bws fel dull teithio ychwanegol.
- Roedd cyfanswm o 4.9% o'r holl deithiau'n ymwneud â bysiau, naill ai fel y prif ddull (3.7%) neu fel dull teithio ychwanegol (1.1%). Mae hyn yn cyfateb i 30.4 taith y pen y flwyddyn gan ddefnyddio bws ar ryw adeg.
- Teithiau a oedd yn cynnwys bysiau oedd yr ail fath mwyaf cyffredin o deithiau aml-ddull, y tu ôl i'r rheini a oedd yn cynnwys defnyddio car.

Teithiau yn ôl ac ymlaen o safleoedd bysiau

- Gwnaed 93.1% o deithiau i safleoedd bysiau a 91.3% o safleoedd bysiau drwy gerdded neu olwyno.
- Gwnaed 1.2% o deithiau i safleoedd bysiau ac 1.4% o safleoedd bysiau mewn car.
- Roedd y teithiau yn ôl ac ymlaen i safleoedd bysiau fel arfer yn fyr. Roedd 58.2% o deithiau i safleoedd bysiau o dan 1km o hyd ac roedd 38.5% rhwng 1km a 5km.
- Yn yr un modd, roedd 61.2% o deithiau o safleoedd bysiau i'r gyrchfan o dan 1km o hyd ac roedd 35.8% o deithiau rhwng 1km a 5km.

Pellter y daith

Pellter y daith ar fws yw hyd y llwybr mwyaf uniongyrchol sy'n bosibl rhwng y man cychwyn a'r gyrchfan. Nid yw'n cael ei fesur fel llinell syth o'r man cychwyn i'r gyrchfan.

Mae rhagor o wybodaeth am sut rydym wedi cyfrifo pellteroedd ar gael yn ein diffiniadau.

Yn 2025/26, rydym yn amcangyfrif bod hyd cymedrig y daith ar draws pob dull o deithio yn 15.5km, gyda hyd canolrifol taith yn 5.8km.

- Yn gyffredinol, rydym yn amcangyfrif bod cyfanswm y pellter a deithiwyd ar fws yn 247.4km y pen y flwyddyn. Roedd hyn yn 2.6% o gyfanswm y pellter a deithiwyd y pen y flwyddyn (9,670.6km).
- Pellter cymedrig taith ar fws oedd 10.6km ac roedd y daith ganolrifol yn 8.8km.
- Mae dros 41.7% o deithiau ar fws rhwng 10km a 20km. Roedd 23.3% rhwng 5km a 10km ac roedd 29.2% rhwng 1km a 5km.
- Roedd defnyddwyr bysiau rheolaidd yn teithio 1,104.0km y pen y flwyddyn ar fws (16.6% o gyfanswm y pellter a deithiwyd). Roedd y defnyddwyr hyn yn cyfrif am 78.9% o gyfanswm y pellter a deithiwyd ar fws.
- Cost fesul cilomedr wedi'i bwysoli a deithiwyd ar fws yw £0.20. Nid oedd hyn yn cynnwys y rheini a oedd yn teithio am ddim. I gael rhagor o wybodaeth am y gost fesul cilomedr, tarwch olwg ar ein dogfen ddiffiniadau.

Pwrpas y daith

'Pwrpas y daith' yw'r prif reswm pam yr oedd ymatebydd yn teithio. Yn aml, mae hyn yn seiliedig ar y gweithgaredd a wneir ym man cychwyn y daith neu yn y gyrchfan. Mae teithiau hamdden yn unig, lle mai'r weithred o deithio yw'r gweithgaredd hamdden (er enghraifft, mynd i redeg neu

gymryd rhan mewn chwaraeon) wedi'u heithrio. Mae hyn yn cyd-fynd â diffiniad Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol o deithiau cyfleustodau.

Mae gwybodaeth am y teithiau a gynhwyswyd ar gael yn ein diffiniadau.

- Y pwrpas teithio mwyaf cyffredin a nodwyd wrth deithio ar fws oedd siopa (28.0%). Mae hyn yn uwch na'r gyfran gyffredinol o deithiau ar gyfer siopa (23.1%). Fodd bynnag, siopa yw'r pwrpas mwyaf cyffredin ar draws pob dull.
- Roedd cymudo (20.3%) a theithiau i ddigwyddiadau cymdeithasol neu adloniant (15.9%) hefyd yn ddibenion teithio poblogaidd wrth deithio ar fws, sy'n cyd-fynd â'r cyfrannau pwrpas teithiau cyffredinol (cymudo: 19.3%, cymdeithasol neu adloniant: 17.7%).
- Roedd 13.4% o deithiau ar fws yn ymwneud ag addysg, o'i gymharu â dim ond 3.4% o'r holl deithiau.

Bysiau: Cyfran y teithiau yn ôl pwrpas y daith

Ffigur 3: Cyfran y teithiau y pen y flwyddyn yn ôl pwrpas y daith mewn bws a theithiau cyffredinol, 2025/26



Disgrifiad o Ffigur 3: Siart bar llorweddol yn dangos cyfran y teithiau yn ôl pwrpas y daith, gan gymharu teithiau mewn bws â theithiau cyffredinol. Mae pwrpas teithiau ar fws fel arfer yn dilyn patrwm tebyg i deithiau cyffredinol. Mae teithiau at ddibenion addysg yn eithriad amlwg, sy'n llawer mwy cyffredin ar fws nag yn gyffredinol.

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, pwrpas y daith

Profiad o deithio ar fws

Fe wnaethom ofyn cwestiynau ychwanegol i ddefnyddwyr bws am eu profiad ar eu taith ddiweddaraf ar fws. Rydym wedi diffinio defnyddiwr bws fel unrhyw ymatebydd sy'n dweud ei fod wedi teithio ar fws o leiaf unwaith bob ychydig o fisoedd. Roedd hyn yn cyfateb i tua 38.5% o'r ymatebwyr.

Bodlonrwydd cyffredinol ar y daith

- Roedd cyfran fawr o'r ymatebwyr yn fodlon ar eu taith gyffredinol wrth deithio ar fws. Dywedodd 84.8% o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo'n fodlon iawn neu'n eithaf bodlon ar eu taith gyffredinol (36.3% yn fodlon iawn a 48.4% yn eithaf bodlon). Dywedodd 8.0% o ymatebwyr eu bod yn teimlo'n eithaf anfodlon a dywedodd 3.7% eu bod yn teimlo'n anfodlon iawn.
- Gogledd Cymru oedd â'r gyfran uchaf o ymatebwyr bodlon, sef 88.1%, a De-orllewin Cymru oedd â'r gyfran isaf, sef 81.5%.
- Yn gyffredinol, roedd bodlonrwydd yn cynyddu gydag oedran, gyda 78.5% o bobl 16-24 oed yn fodlon o'i gymharu â 90.2% o bobl 75-84 oed.

Bodlonrwydd ar ddiogelwch

- Dywedodd 90.0% o ymatebwyr eu bod yn teimlo'n fodlon iawn neu'n eithaf bodlon ar eu diogelwch wrth deithio ar fws (46.7% yn fodlon iawn a 43.3% yn eithaf bodlon). Dywedodd 4.8% o ymatebwyr eu bod yn teimlo'n eithaf anfodlon a dywedodd 1.7% eu bod yn teimlo'n anfodlon iawn.
- Roedd gwahaniaeth o 12.5 pwynt canran rhwng grwpiau oedran a bodlonrwydd ar ddiogelwch, gyda 95.0% o bobl 65-74 oed ac 82.5% o bobl 35-44 oed yn fodlon.

Bodlonrwydd ar nodweddion teithiau ar fws

Cafodd defnyddwyr bysiau eu neilltuo ar hap naill ai i ateb cwestiynau am fodlonrwydd ar argaeledd gwybodaeth a thocynnau neu brydlondeb a dibynadwyedd.

Bodlonrwydd ar yr wybodaeth sydd ar gael

- Roedd 75.2% o'r ymatebwyr yn fodlon ar yr wybodaeth sydd ar gael (29.6% yn fodlon iawn, 45.6% yn eithaf bodlon). Dywedodd 12.2% o ymatebwyr eu bod yn teimlo'n eithaf anfodlon a dywedodd 6.1% eu bod yn teimlo'n anfodlon iawn.
- Roedd mwy o ymatebwyr nad ydynt yn anabl (78.3%) yn fodlon ar yr wybodaeth a oedd ar gael nag ymatebwyr anabl (71.2%), gwahaniaeth o 7.1 pwynt canran.

Bodlonrwydd ar y tocynnau

- Dywedodd 73.1% o ymatebwyr eu bod yn teimlo'n fodlon ar y tocynnau (36.3% yn fodlon iawn a 36.9% yn eithaf bodlon). Dywedodd 9.8% o ymatebwyr eu bod yn anfodlon ar y tocynnau (5.6% yn eithaf anfodlon a 4.1% yn anfodlon iawn).
- Roedd mwy o ymatebwyr nad ydynt yn anabl yn fodlon ar y tocynnau, o'i gymharu ag ymatebwyr anabl. Roedd gwahaniaeth o 13.6 pwynt canran rhwng bodlonrwydd ymatebwyr nad ydynt yn anabl (76.7%) ac ymatebwyr anabl (63.1%) ar gyfer tocynnau.

Bodlonrwydd ar brydlondeb

- Dywedodd 73.3% o ymatebwyr eu bod yn teimlo'n fodlon ar brydlondeb (30.5% yn fodlon iawn a 42.7% yn eithaf bodlon). Dywedodd 13.8% o ymatebwyr eu bod yn teimlo'n eithaf anfodlon a dywedodd 8.7% eu bod yn teimlo'n anfodlon iawn.
- Roedd mwy o fenywod a ymatebodd yn fodlon ar brydlondeb o'i gymharu â'r dynion a ymatebodd. Roedd gwahaniaeth o 7.3 pwynt canran rhwng bodlonrwydd menywod a ymatebodd (76.7%) a dynion a ymatebodd (69.4%).

Bodlonrwydd ar ddibynadwyedd

- Dibynadwyedd oedd â'r lefelau bodlonrwydd isaf ar draws yr holl ffactorau ar gyfer bysiau. Roedd 71.8% o'r ymatebwyr yn fodlon ar ddibynadwyedd (29.4% yn fodlon iawn a 42.4% yn eithaf bodlon).
- Dywedodd 24.7% o ymatebwyr eu bod yn anfodlon ar ddibynadwyedd (15.8% yn eithaf anfodlon ac 8.9% yn anfodlon iawn).
- Roedd 75.5% o fenywod a ymatebodd yn teimlo'n fodlon ar ddibynadwyedd bysiau o'i gymharu â 67.3% o'r dynion a ymatebodd – gwahaniaeth o 8.2 pwynt canran.

Teimlo croeso

- Dywedodd 91.2% o ymatebwyr eu bod yn teimlo bod croeso iddynt ar eu taith fws ddiweddaraf (48.4% yn fawr iawn a 42.8% i ryw raddau). Dywedodd 5.1% o ymatebwyr eu bod yn teimlo nad oedd croeso iddynt (1.0% yn fawr iawn a 4.0% i ryw raddau).
- Dywedodd ymatebwyr yn y grwpiau oedran 65-74 a hŷn eu bod yn teimlo bod croeso iddynt na'r rhai yn y grwpiau oedran iau. Roedd 94.3% yn teimlo bod croeso iddynt yn y grwpiau oedran 65-74 ac 85 neu hŷn.

- Dywedodd 88.3% o'r ymatebwyr 16-24 oed, ac 88.0% o'r rhai 35-44 oed eu bod yn teimlo bod croeso iddynt.

Pam oedd ymatebwyr yn teimlo nad oedd croeso iddynt

Dywedodd 5.1% o ddefnyddwyr eu bod yn teimlo nad oedd croeso iddynt ar eu taith fws ddiweddaraf. Gofynnom i'r defnyddwyr pam eu bod yn teimlo fel hyn.

- Dywedodd dros hanner (53.6%) o ymatebwyr eu bod yn teimlo nad oedd croeso iddynt oherwydd "teithwyr eraill". Dilynwyd hyn gan 43.4% o'r ymatebwyr yn teimlo nad oeddent yn cael croeso oherwydd y "gyrrwr bws ac aelodau eraill o staff", a 41.7% oherwydd "y pethau o'ch cwmpas (ar y bws ac wrth aros)".

Defnyddio'r Gymraeg wrth deithio ar fws

Gofynnwyd i ddefnyddwyr bysiau a allai gyfathrebu yn Gymraeg pa iaith roeddent yn ei defnyddio wrth deithio ar fws. Mae rhagor o wybodaeth am sut rydym ni wedi diffinio defnyddwyr Cymraeg ar gael yn ein dogfen ddiffiniadau. Gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn wrth ateb y cwestiwn hwn.

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn defnyddio Saesneg (92.3%) yn ystod eu taith ar fws ac yna Cymraeg (25.7%).
- Gofynnwyd cwestiwn dilynol i'r 73.4% a ddywedodd wedyn nad oeddent wedi defnyddio'r Gymraeg ynghylch a oeddent am gyfathrebu yn Gymraeg. Nid oedd 84.8% eisiau cyfathrebu yn Gymraeg ac roedd 8.9% yn dymuno gwneud hynny ond nid oeddent yn gallu gwneud hynny.

Bodlonrwydd ar deithio'n annibynnol

Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr pa mor fodlon oeddent ar eu gallu eu hunain i deithio'n annibynnol heb gymorth staff nac unrhyw deithwyr nad oeddent wedi dechrau ar eu taith gyda nhw.

- Roedd tua thri chwarter yr ymatebwyr (78.8%) yn teimlo'n fodlon iawn neu'n eithaf bodlon.
- Dywedodd bron ddwywaith yn fwy o ymatebwyr nad ydynt yn teithio ar fws (9.7%), o'i gymharu â'r rheini a oedd yn teimlo'n anfodlon iawn neu'n eithaf anfodlon (5.2%). Dywedodd 0.5% o'r ymatebwyr nad oedd gwasanaethau bysiau ar gael yn eu hardal.
- Dywedodd cyfran uwch o ymatebwyr nad ydynt yn anabl (87.8%) eu bod yn fodlon ar eu gallu i deithio'n annibynnol o'i gymharu ag ymatebwyr anabl (60.7%).

Gwybodaeth am docynnau a chardiau teithio rhatach

- Roedd gan 32.9% o'r holl ymatebwyr gerdyn neu docyn teithio rhatach neu am bris gostyngol, ac nid oedd gan 65.6% docyn o'r fath.

Fforddiadwyedd teithio ar fysiau

Rhennir cwestiynau ar fforddiadwyedd tocynnau bws rhwng y rheini sydd â cherdyn rhatach neu docyn teithio rhatach arall a'r rheini sydd heb gerdyn o'r fath (tocyn teithio rhatach o hyn ymlaen).

Ymatebwyr heb docyn teithio rhatach

Gofynnwyd i ymatebwyr heb docyn teithio rhatach (65.6%) a oeddent yn teimlo y gallent deithio ar gyfer amrywiaeth o ddibenion.

- Dywedodd 47.3% o'r ymatebwyr y gallent fforddio teithio ar gyfer pob diben. Dywedodd 23.4% y gallent fforddio teithio ar gyfer rhai dibenion, fel apwyntiadau iechyd hanfodol a/neu siopa, gwaith neu addysg, neu ar gyfer ymweld â ffrindiau neu deulu neu at ddibenion cymdeithasol a hamdden.
- Dywedodd 7.2% na allent fforddio teithio o gwbl.

Ymatebwyr gyda thocyn teithio rhatach

Gofynnwyd i ymatebwyr gyda thocyn teithio rhatach (32.9%) a oeddent yn teimlo y gallent deithio ar gyfer amrywiaeth o ddibenion.

- Dywedodd 72.0% o'r ymatebwyr fod eu cerdyn teithio yn caniatáu iddynt deithio am ddim.
- Dywedodd 12.0% y gallent fforddio teithio ar gyfer pob diben, a dywedodd 7.2% y gallent fforddio teithio ar gyfer unrhyw gyfuniad o apwyntiadau iechyd hanfodol a/neu siopa, gwaith neu addysg, neu ymweld â ffrindiau neu deulu neu at ddibenion cymdeithasol a hamdden.
- Dywedodd 0.8% na allent fforddio teithio o gwbl, er gwaethaf eu tocyn teithio rhatach.

Gofynnwyd i ymatebwyr a allai fforddio teithio wrth ddefnyddio eu cerdyn neu docyn teithio rhatach, pe na baent yn gallu teithio am bris gostyngol, a fyddent yn gallu fforddio teithio ar gyfer yr un dibenion.

- Dywedodd 39.8% o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo y gallent fforddio teithio ar gyfer pob diben heb docyn teithio rhatach. Dywedodd 29.2% o ymatebwyr eu bod yn teimlo y gallent fforddio teithio ar gyfer unrhyw gyfuniad o apwyntiadau iechyd hanfodol a/neu siopa, gwaith neu addysg, neu ymweld â ffrindiau neu deulu neu at ddibenion cymdeithasol a hamdden.
- Dywedodd 15.2% eu bod yn teimlo na allent fforddio teithio o gwbl.

Pam wnaeth ymatebwyr roi'r gorau i deithio ar fws

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn defnyddio'r bws unwaith neu ddwy yn ystod y flwyddyn a ddim o gwbl (60.7% o gyfanswm yr ymatebwyr) a oeddent yn teithio ar fws yn rheolaidd ar unrhyw adeg yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

- Dywedodd 18.6% eu bod wedi teithio ar fws yn rheolaidd yn ystod y pum mlynedd diwethaf.
- Yna gofynnwyd i'r 18.6% hynny pam eu bod wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio'r bws. Dewisodd 57.4% "Rwy'n defnyddio dull arall o deithio nawr."

Ffactorau a fyddai'n annog defnyddwyr i deithio ar fws yn amlach

- Nodwyd 50.5% o ymatebwyr fel defnyddwyr bysiau.
- Y ffactor mwyaf poblogaidd a fyddai'n annog defnyddwyr bysiau presennol i deithio ar fws yn amlach oedd "gwell gwybodaeth am lwybrau, safleoedd bysiau ac amseroedd" (40.7%), "gwasanaethau amlach, gan gynnwys ar adegau tawelach o'r dydd" (34.3%) a "thocynnau rhatach, symlach" (33.9%).

Beth fyddai'n annog pobl i deithio ar fws

Ffigur 4: Ffactorau a fyddai'n annog pobl i deithio ar fws yng Nghymru, 2025/26



Disgrifiad o Ffigur 4: Siart bar llorweddol yn dangos y ffactorau a fyddai'n annog pobl i deithio ar fws. Yr ymateb mwyaf cyffredin i ddefnyddwyr oedd "gwell gwybodaeth am lwybrau, safleoedd bysiau ac amseroedd" (40.7%), a'r ymatebion mwyaf cyffredin i'r rheini nad oeddent yn defnyddio bws oedd "dim un o'r rhain" (29.3%), ac yna "gwell gwybodaeth am lwybrau, safleoedd bysiau ac amseroedd" (28.9%).

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, ffactorau i annog newid dulliau teithio i ddulliau teithio cynaliadwy

Nodyn 1: Yn seiliedig ar ba mor aml yr oedd ymatebwyr yn teithio, cafodd 3,080 (50.5%) o ymatebwyr eu nodi fel defnyddwyr bws a 2,770 (44.4%) eu nodi fel pobl nad oeddent yn defnyddio bws.

Nodyn 2: Ni ofynnwyd i'r ymatebwyr nodi pa wasanaeth bws neu gwmni roeddent yn ei ddefnyddio.

Rhyw yr ymatebydd

- Nid oedd llawer o wahaniaeth rhwng y ffactorau a'r cyfrannau a ddewiswyd rhwng dynion a menywod a ymatebodd gyda'r un opsiynau ag uchod.

Statws anabledd

Roedd mân wahaniaethau yn yr ymatebion a ddewiswyd gan ymatebwyr anabl a rhai nad ydynt yn anabl.

- Dewisodd 41.8% o'r ymatebwyr nad ydynt yn anabl "gwell gwybodaeth am lwybrau, safleoedd bysiau ac amseroedd", dewisodd 35.2% "tocynnau rhatach, symlach" a dewisodd 34.5% "wasanaethau amlach, gan gynnwys ar adegau tawelach o'r dydd".
- Y tri ffactor mwyaf cyffredin ar gyfer ymatebwyr anabl oedd "gwasanaethau amlach" (a ddewiswyd gan 38.2%), "gwell gwybodaeth am lwybrau, safleoedd bysiau ac amseroedd" (a ddewiswyd gan 36.5%) a "gwella dibynadwyedd a/neu brydlondeb" (a ddewiswyd gan 31.2%).

Rhanbarthau

- Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion a ddewiswyd amlaf yn dal yn weddol debyg, er gwaethaf gwahaniaethau yng nghyfran yr ymatebwyr a ddewisodd yr opsiynau hyn.

Grŵp oedran

- "Tocynnau rhatach" oedd y ffactor mwyaf cyffredin ar gyfer grwpiau oedran 16-24, 25-34 a 35-44 a fyddai'n annog mwy o bobl i ddefnyddio bysiau (60.6%, 50.1% a 48.3% yn y drefn honno).
- Ar gyfer ymatebwyr 65-74 a 75-84 oed, "gwell gwybodaeth am lwybrau, safleoedd bysiau ac amseroedd", "gwasanaethau amlach ar adegau tawelach o'r dydd" a "gwell dibynadwyedd a/neu brydlondeb" oedd y ffactorau a ddewiswyd fwyaf a fyddai'n annog mwy o bobl i ddefnyddio bysiau.
- Roedd yr ymatebion a ddewiswyd gan ymatebwyr 85 oed neu hŷn yn wahanol i ymatebwyr eraill, gyda 35.4% o'r ymatebwyr yn dewis "dim un o'r rhain". Dilynwyd hyn gan "wasanaethau amlach ar adegau tawelach o'r dydd" (32.6%) a "gwella dibynadwyedd a/neu brydlondeb" (29.2%).

Cwintel Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

- "Gwell gwybodaeth am lwybrau, safleoedd bysiau ac amseroedd" oedd y ffactor a ddewiswyd fwyaf yn gyffredinol yn C2 i C5 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, a'r ail fwyaf cyffredin yn C1. Roedd y cyfrannau'n amrywio o 37.3% yn C1 i 44.9% yn C5.
- Ffactor cyffredin arall a ddewiswyd ar draws Cwintelau 1, 2, 3 a 5 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru oedd "gwell dibynadwyedd a/neu brydlondeb". Roedd hyn yn amrywio o 33.4% yn C2 i 37.5% yn C5.
- Cafodd "Tocynnau rhatach, symlach" ei ddewis gan fwy o ymatebwyr mewn ardaloedd difreintiedig (41.6% o'r ymatebwyr yn C1, 35.2% yn C2 a 27.1% yn C4). Cafodd "gwasanaethau amlach ar adegau tawelach o'r dydd" ei ddewis yn amlach gan y rheini mewn ardaloedd llai difreintiedig (36.2% yn C3, 35.9% yn C4 a 38.0% yn C5).

Ffactorau a fyddai'n annog pobl nad ydynt yn ddefnyddwyr i deithio ar fws yn amlach

- Nodwyd nad oedd 44.4% o ymatebwyr yn defnyddio bysiau.
- Dywedodd 29.3% o'r rheini nad oeddent yn defnyddio bysiau na fyddai "dim un o'r rhain" o ran yr opsiynau hyn a restrir, yn eu hannog i deithio ar fws. Cafodd "gwell gwybodaeth am lwybrau, safleoedd bysiau ac amseroedd" ei ddewis gan 28.9% o'r ymatebwyr a chafodd "tocynnau rhatach, symlach" ei ddewis gan 24.7%.

Rhyw yr ymatebydd

- Dewisodd mwy o ddynion a ymatebodd (31.6%) "dim un o'r rhain" o'i gymharu â menywod (27.6%).

Statws anabledd

- Roedd mân wahaniaethau yn yr ymatebion a ddewiswyd gan ymatebwyr anabl a rhai nad ydynt yn anabl. Ar gyfer ymatebwyr nad ydynt yn anabl, dewisodd 30.4% "gwell gwybodaeth am lwybrau, safleoedd bysiau ac amseroedd", dewisodd 27.5% "dim un o'r rhain" a dewisodd 27.2% "tocynnau rhatach, symlach".
- Y tri ffactor mwyaf cyffredin ar gyfer ymatebwyr anabl oedd "dim un o'r rhain" (33.8%), "gwell gwybodaeth am lwybrau, safleoedd bysiau ac amseroedd" (24.1%) a "gwasanaethau amlach, gan gynnwys ar adegau tawelach o'r dydd" (19.5%).

Rhanbarthau

- Ar draws y rhanbarthau, er bod y cyfrannau'n amrywio, roedd yr ymatebion a ddewiswyd amlaf yn dal yn weddol debyg.

Grŵp oedran

- "Dim un o'r rhain" a gafodd ei ddewis amlaf gan ymatebwyr mewn grwpiau oedran hŷn, gyda dim ond 26.2% o bobl 25-34 oed ond 59.0% o bobl 85 oed a hŷn.
- Roedd "gwell gwybodaeth am lwybrau, safleoedd bysiau ac amseroedd" yn ffactor a ddewiswyd yn aml gan bob grŵp oedran, yn amrywio o 31.2% o bobl 55-64 oed i 12.4% o bobl 85 oed a hŷn.
- Soniodd bob grŵp oedran o 16-24 oed i 45-54 oed am "docynnau rhatach, symlach" yn amlach, gan amrywio o 30.6% ar gyfer pobl 16-24 oed a 35.9 ar gyfer pobl 25-34 oed.

Cwintelau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

- Dewisodd ymatebwyr "dim un o'r rhain" ym mhob Cwintel Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, gan amrywio o 25.5% yng Nghwintel 4 i 32.9% yn Nghwintel 2. Ar gyfer "gwell gwybodaeth am lwybrau, safleoedd bysiau ac amseroedd", roedd hyn yn amrywio o 25.0% o'r ymatebwyr yng Nghwintel 1 i 31.5% yng Nghwintel 3.
- O'i gymharu â'r cwintelau llai difreintiedig, dywedodd ymatebwyr mewn ardaloedd mwy difreintiedig y byddai "tocynnau rhatach symlach" yn eu hannog i ddefnyddio bws – 27.6% yng Nghwintel 1 i 25.4% yng Nghwintel 3.